## ATODLEN 1

## GOFYNION YMGYNGHORI AR GYFER CYTUNDEBAU HIR-DYMOR CYMWYS AC EITHRIO'R RHEINI Y MAE ANGEN RHOI HYSBYSIAD CYHOEDDUS OHONYNT

### *Hysbysiad o gynigion y landlord*

**6.**—(1) Rhaid i'r landlord roi hysbysiad ysgrifenedig o'r cynigion a baratowyd o dan baragraff 5—

(a) i bob tenant; a

(b) i'r gymdeithas, os cynrychiolir rhai o'r tenantiaid neu'r tenantiaid i gyd gan gymdeithas tenantiaid gydnabyddedig.

(2) O ran yr hysbysiad—

(a) rhaid anfon gydag ef gopi o bob cynnig neu nodi ym mha le a pha bryd y gellir archwilio'r cynigion;

(b) rhaid iddo wahodd sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r cynigion; a

(c) rhaid iddo bennu—

(i) y cyfeiriad lle y dylid anfon y sylwadau hynny;

(ii) ei bod yn rhaid iddynt gyrraedd o fewn y cyfnod perthnasol; a

(iii) y dyddiad y daw'r cyfnod perthnasol i ben.

(3) Bydd paragraff 2 yn gymwys i gynigion a fydd ar gael i'w harchwilio o dan y paragraff hwn fel y mae'n gymwys i ddisgrifiad o'r materion perthnasol a fydd ar gael i'w harchwilio o dan y paragraff hwnnw.